# Prifnewyddion

Cylchlythyr y Dreth Gyngor 2026

## Treth Gyngor 2026/27

### Manylion y Gwariant Cyfalaf a Refeniw ar Wasanaethau

Mae Cyllideb y Cyngor yn cynnwys dau brif faes - Refeniw (gwariant o ddydd i ddydd) a Chyfalaf (buddsoddiad mewn isadeiledd).

Mae Cyllideb Refeniw 2026/27 wedi'i phennu yng nghyd-destun pwysau prisiau a galw parhaus. Mae mwy o bobl, yn aml ag anghenion mwy cymhleth, yn cael mynediad i wasanaethau'r Cyngor. Hefyd, er ei fod ar lefelau is na'r blynyddoedd diwethaf, mae chwyddiant yn parhau i gynyddu costau.

Amcangyfrifir y bydd cost darparu gwasanaethau yn cynyddu £67.2 miliwn ar gyfer 2025/26. Er gwaethaf setliad ariannu gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru (+4.2%), ni fydd cyllid ychwanegol yn ddigon i dalu am y cynnydd hwn mewn costau yn llawn, gan adael bwlch o £22.7 miliwn i fynd i'r afael ag e. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae'r rhan fwyaf o'r bwlch wedi'i gau trwy arbedion (£14.8 miliwn). Mae'r gweddill wedi'i gau trwy gynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor sy'n cynhyrchu incwm ychwanegol net o £7.9 miliwn. Bydd y cynnydd yn galluogi diogelu rhai o wasanaethau allweddol y Cyngor. Bydd y rheini sy'n gymwys yn derbyn cymorth trwy Gynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Mae'r Cyngor wedi parhau i flaenoriaethu arbedion effeithlonrwydd – mewn geiriau eraill arbedion sy'n darparu'r un peth (neu fwy) am gost is, heb unrhyw effaith ar y preswylydd/cwsmer. Mae arbedion effeithlonrwydd y gyfarwyddiaeth sy'n dod i gyfanswm o £14.8m wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2026/2027. Nid yw cyllideb 2026/27 yn cynnwys unrhyw arbedion sy'n lleihau lefelau gwasanaeth.

Mae'r gyllideb, a'r blaenoriaethau gwariant y mae'n eu hadlewyrchu, yn gyson â chanfyddiadau ymgynghoriad cyllideb y Cyngor ledled y ddinas a gafodd dros 1,900 o ymatebion. Mae'r Gyllideb yn parhau i ddarparu cymorth i'r blaenoriaethau Cryfach, Tecach, Gwyrddach ar gyfer y ddinas ac mae'n ystyried adborth ymgynghori, a nododd dair prif flaenoriaeth ariannu dinasyddion fel 1) Ysgolion ac Addysg, 2) Plant a Theuluoedd sy'n Agored i Niwed a 3) Oedolion sy'n Agored i Niwed a Phobl Hŷn. Mae buddsoddiad yn y meysydd hyn yn amlwg yn y Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf.

Mae Cyllideb Refeniw 2026/27 y Cyngor yn cynnwys £14.1 miliwn (+4.2%) yn ychwanegol i ysgolion, cyllid ychwanegol net gwerth £17.5 miliwn (+6.2%) i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cefnogi plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a chyllideb net ychwanegol o £4.1 miliwn (6.5%) i'r Gwasanaethau Addysg Canolog. Mae yna hefyd fuddsoddiad untro o £4.5 miliwn mewn ardaloedd â blaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer atgyweirio priffyrdd, glanhau strydoedd, adfywio cymdogaethau, amrywiaeth o fentrau sy'n dda i blant, a grantiau i fuddsoddi mewn clybiau chwaraeon lleol.

Mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn ailddatgan ei ymrwymiad i fuddsoddiad sylweddol yn nyfodol y ddinas. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn tai fforddiadwy, adeiladau ysgolion, seilwaith trafnidiaeth a ffyrdd, gwella ansawdd aer, mynd i'r afael ag erydu arfordirol, adeiladu swyddfa graidd newydd a mentrau datblygu economaidd megis yr Arena newydd.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn tynnu sylw at y ffaith y bydd y Cyngor yn wynebu bwlch cyllidebol pellach o £167 miliwn dros y pedair blynedd ar ôl 2026/27, oherwydd pwysau ariannol sy'n fwy na'r cyllid a ragwelir, gydag angen dod o hyd i £44 miliwn o hyn yn 2027/28. Wrth weithio i gau'r bwlch hwn, bydd y Cyngor yn parhau i geisio gwella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau a, thrwy ymgysylltu'n barhaus â dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill, bydd yn ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol yn ofalus.




CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

## Sut y Cyfrifir eich Bil

Y cyfanswm y byddwch yn ei dalu=

+1. Treth Gyngor Caerdydd

+2. Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru

+3. Treth y Cyngor Cymuned

| | A<br>£ | B<br>£ | C<br>£ | D<br>£ | E<br>£ | F<br>£ | G<br>£ | H<br>£ | I<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cyngor Caerdydd | 1,069.15 | 1,247.34 | 1,425.53 | 1,603.72 | 1,960.10 | 2,316.48 | 2,672.87 | 3,207.44 | 3,742.01 |
| 2. Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru | 270.09 | 315.11 | 360.12 | 405.14 | 495.17 | 585.20 | 675.23 | 810.28 | 945.33 |
| 3. Cynghorau Cymuned | | | | | | | | | |
| Llys-faen | 17.39 | 20.28 | 23.18 | 26.08 | 31.88 | 37.67 | 43.47 | 52.16 | 60.85 |
| Pentyrch | 38.57 | 45.00 | 51.43 | 57.86 | 70.72 | 83.58 | 96.43 | 115.72 | 135.01 |
| Radur a Phentre-poeth | 31.59 | 36.86 | 42.12 | 47.39 | 57.92 | 68.45 | 78.98 | 94.78 | 110.58 |
| Sain Ffagan | 18.89 | 22.03 | 25.18 | 28.33 | 34.63 | 40.92 | 47.22 | 56.66 | 66.10 |
| Pentref Llaneirwg | 14.67 | 17.11 | 19.56 | 22.00 | 26.89 | 31.78 | 36.67 | 44.00 | 51.33 |
| Tongwynlais | 28.07 | 32.75 | 37.43 | 42.11 | 51.47 | 60.83 | 70.18 | 84.22 | 98.26 |

## Beth Fyddwch chi'n ei Dalu



| | A<br>£ | B<br>£ | C<br>£ | D<br>£ | E<br>£ | F<br>£ | G<br>£ | H<br>£ | I<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llys-faen | 1,356.63 | 1,582.73 | 1,808.83 | 2,034.94 | 2,487.15 | 2,939.35 | 3,391.57 | 4,069.88 | 4,748.19 |
| Pentyrch | 1,377.81 | 1,607.45 | 1,837.08 | 2,066.72 | 2,525.99 | 2,985.26 | 3,444.53 | 4,133.44 | 4,822.35 |
| Radur a Phentre-poeth | 1,370.83 | 1,599.31 | 1,827.77 | 2,056.25 | 2,513.19 | 2,970.13 | 3,427.08 | 4,112.50 | 4,797.92 |
| Sain Ffagan | 1,358.13 | 1,584.48 | 1,810.83 | 2,037.19 | 2,489.90 | 2,942.60 | 3,395.32 | 4,074.38 | 4,753.44 |
| Pentref Llaneirwg | 1,353.91 | 1,579.56 | 1,805.21 | 2,030.86 | 2,482.16 | 2,933.46 | 3,384.77 | 4,061.72 | 4,738.67 |
| Tongwynlais | 1,367.31 | 1,595.20 | 1,823.08 | 2,050.97 | 2,506.74 | 2,962.51 | 3,418.28 | 4,101.94 | 4,785.60 |
| Ardaloedd Eraill | 1,339.24 | 1,562.45 | 1,785.65 | 2,008.86 | 2,455.27 | 2,901.68 | 3,348.10 | 4,017.72 | 4,687.34 |

GALL CARTREFI AG UN OEDOLYN YN UNIG HAWLIO GOSTYNGIAD O 25 %

## Bandiau'r Dreth Gyngor

Mae'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar werth marchnad agored anheddau domestig ar 1 Ebrill 2003. Yr Asiantaeth Brisio sy'n penderfynu ar werth annedd. Yn seiliedig ar brisiant yr Asiantaeth ar annedd penodol, fe'i gosodir yn un o'r naw band prisio A-I sy'n penderfynu ar y dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas â'r eiddo.

| Band Prisio | Ystod gwerthoedd ar 1 Ebrill 2003 | Y Dreth Gyngor sy'n daladwy fel canran cost Band D |
|---|---|---|
| A | Heb fod yn fwy na £44,000 | 6/9 |
| B | £44,001 - £65,000 | 7/9 |
| C | £65,001 - £91,000 | 8/9 |
| D | £91,001 - £123,000 | 9/9 |
| E | £123,001 - £162,000 | 11/9 |
| F | £162,001 - £223,000 | 13/9 |
| G | £223,001 - £324,000 | 15/9 |
| H | £324,001 - £424,000 | 18/9 |
| I | Gwerthoedd sy'n fwy na £424,000 | 21/9 |

I gael rhagor o wybodaeth am eich band, neu i apelio yn ei erbyn, ewch i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar **www.gov.uk/contact-voa neu ffoniwch 03000 505505**

## Archebiannau'r Cyngor Cymuned

| 2025/26<br>£ | | 2026/27<br>£ |
|---|---|---|
| 84,500 | Llys-faen | 88,500 |
| 199,775 | Pentyrch | 228,258 |
| 181,806 | Radur a Phentre-poeth | 203,623 |
| 55,500 | Sain Ffagan | 58,500 |
| 59,224 | Pentref Llaneirwg | 60,368 |
| 31,350 | Tongwynlais | 34,485 |

## Asesiad Gwariant Safonol

| | £m |
|---|---|
| Asesiad Safonol y Cynulliad ar gyfer gwariant y Cyngor yw: | 1,008.9 |
| Yr Union Gyllid a gymeradwyir gan y Cyngor yw: | 967.5 |

## Newidiadau mewn Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

| | Brasamcan o'r Balans 31.3.2026 £000 | Symudiadau Arfaethedig yn 2026/27 £000 | Brasamcan o'r Balans 31.3.2027 £000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa Refeniw Cyffredinol | 14,255 | 0 | 14,255 |
| Cronfeydd wedi'u Clustnodi | 128,692 | (23,290) | 105,402 |
| Cronfa Gyffredinol HRA | 7,502 | 0 | 7,502 |
| Cronfeydd HRA | 16,192 | (1,133) | 15,059 |
| | **166,641** | **(24,423)** | **142,218** |

## Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2026/27

| **Gwariant:** | **£000** |
|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 269,155 |
| Tai Cyhoeddus | 182,890 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **452,045** |
| **Ariannwyd gan:** | **£000** |
| Benthyca | (259,228) |
| Derbyniadau Cyfalaf | (2,600) |
| Grantiau a Chyfraniadau a Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr | (183,170) |
| Adnoddau Eraill y Cyngors | (7,047) |
| **CYFANSWM Y CYLLID** | **(452,045)** |

## Gwariant Refeniw 2025/26

| Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth | Gwariant Gros £000 | Incwm £000 | Gwariant Gros £000 |
|---|---|---|---|
| Rheolaeth Gorfforaethol | 15,431 | (1,097) | 14,334 |
| Datblygu a Thwf | 61,325 | (69,656) | (8,331) |
| Addysg | 487,751 | (94,352) | 393,399 |
| Gwasanaethau Rheng Flaen | 106,583 | (43,138) | 63,445 |
| Gwasanaethau Llywodraethiant a Chyfreithiol | 9,432 | (1,676) | 7,756 |
| Tai a Chymunedau | 224,516 | (173,971) | 50,545 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 124,191 | (124,191) | 0 |
| Adnoddau | 18,484 | (8,375) | 10,109 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion | 219,200 | (43,333) | 175,867 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant | 138,152 | (32,558) | 105,594 |
| Cynllunio Strategol a Thrawsnewid | 28,689 | (17,041) | 11,648 |
| Awdurdod Harbwr Caerdydd | 7,536 | (7,536) | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 51,097 | (8,193) | 42,904 |
| Cyfrif Refeniw Cryno | 22,115 | (1,298) | 20,817 |
| **Cyfanswm Gwariant y Gyfarwyddiaeth** | **1,514,502** | **(626,415)** | **888,087** |
| Ardollau | 26,456 | 0 | 26,456 |
| Gostyngiad Treth yn ôl Disgresiwn | 400 | 0 | 400 |
| Cyfraniadau o Gronfeydd wrth gefn | 0 | (3,000) | (3,000) |
| **Cyfanswm Gwariant y Cyngor** | **1,541,358** | **(629,415)** | **911,943** |
| Grant Cynnal Refeniw | | | (537,486) |
| Ardrethi Annomestig | | | (137,400) |
| **Y Dreth Gyngor** | | | **237,057** |

| **Mae'r cyfanswm gwariant yn cynnwys rdollau sy'n daladwy i:** | **£000** |
|---|---|
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 24,914 |
| Awdurdod Iechyd Porth Caerdydd | 163 |
| Awdurdod Iechyd Porth Casnewydd | 6 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 173 |
| Crwner | 1,200 |
| | **26,456** |

## Gwariant Refeniw 2026/27

| Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth | Gwariant Gros £000 | Incwm £000 | Gwariant Gros £000 |
|---|---|---|---|
| Rheolaeth Gorfforaethol | 12,132 | (302) | 11,830 |
| Datblygu a Thwf | 61,829 | (68,642) | (6,813) |
| Addysg | 526,827 | (108,989) | 417,838 |
| Gwasanaethau Rheng Flaen | 116,141 | (49,494) | 66,647 |
| Gwasanaethau Llywodraethiant a Chyfreithiol | 9,317 | (1,258) | 8,059 |
| Tai a Chymunedau | 228,872 | (175,042) | 53,830 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 129,996 | (129,996) | 0 |
| Adnoddau | 19,053 | (8,421) | 10,632 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion | 238,150 | (53,282) | 184,868 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant | 149,199 | (35,810) | 113,389 |
| Cynllunio Strategol a Thrawsnewid | 32,315 | (20,973) | 11,342 |
| Awdurdod Harbwr Caerdydd | 7,776 | (7,776) | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 56,742 | (10,577) | 46,165 |
| Cyfrif Refeniw Cryno | 22,317 | (653) | 21,664 |
| **Cyfanswm Gwariant y Gyfarwyddiaeth** | **1,610,666** | **(671,215)** | **939,451** |
| Ardollau | 27,408 | 0 | 27,408 |
| Gostyngiad Treth yn ôl Disgresiwn | 400 | 0 | 400 |
| Cyfraniadau o Gronfeydd wrth gefn | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant y Cyngor** | **1,638,474** | **(671,215)** | **967,259** |
| Grant Cynnal Refeniw | | | (584,882) |
| Ardrethi Annomestig | | | (132,116) |
| **Y Dreth Gyngor** | | | **250,261** |

| **Mae'r cyfanswm gwariant yn cynnwys rdollau sy'n daladwy i:** | **£000** |
|---|---|
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 25,514 |
| Awdurdod Iechyd Porth Caerdydd | 166 |
| Awdurdod Iechyd Porth Casnewydd | 6 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 179 |
| Crwner | 1,543 |
| | **27,408** |